AI MEWN DYSGU AC ADDYSGU

Cyn defnyddio offeryn AI

Gall AI gefnogi cynllunio, gwahaniaethu, ymchwil, hygyrchedd, creadigrwydd a gwaith gweinyddol. Cyn defnyddio offeryn AI ar gyfer gwaith ysgol neu goleg, cymerwch eiliad i ystyried beth rydych yn gofyn iddo ei wneud.

S Gwirio'n feirniadol

Beth mae'r AI yn fy helpu i'w wneud, a sut byddaf yn gwirio'r canlyniad?

- Gwiriwch ffeithiau a honiadau pwysig.
- Adolygwch adnoddau a gynhyrchir cyn eu rhannu â dysgwyr.
- Ystyriwch a yw'r allbwn yn cyd-fynd â'r amcan dysgu a'r cyd-destun.
- Gofynnwch a yw AI yn cefnogi meddwl neu'n disodli rhan bwysig ohono.

Gofynnwch i chi'ch hun: A fyddwn i'n gyfforddus yn esbonio pam y gwnes i ymddiried yn yr allbwn hwn?

A Asesu data

Pa wybodaeth ydw i'n ei rhannu â'r AI?

- Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol oni bai bod y gwasanaeth wedi'i gymeradwyo at y diben hwnnw.
- Meddyliwch yn ofalus cyn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr, delweddau neu recordiadau.
- Byddwch yn ofalus gyda deunydd asesu sydd heb ei gyhoeddi a dogfennau cyfrinachol.
- Rhannwch ddim ond y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y dasg.

Gofynnwch i chi'ch hun: A oes gwir angen y wybodaeth hon ar yr AI i gyflawni'r dasg?

F Dilyn y llif

Ble mae'r wybodaeth, y cyfarwyddiadau a'r ymddiriedaeth yn mynd?

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa wasanaeth neu nodwedd AI rydych yn ei ddefnyddio.
- Gwiriwch a yw'n offeryn sydd wedi'i gymeradwyo gan yr ysgol neu'r coleg.
- Ystyriwch pa ffeiliau, cyfrifon, e-bost neu systemau eraill y gall gael mynediad atynt.
- Cofiwch y gall un gwasanaeth AI gysylltu â modelau, offer neu wasanaethau allanol eraill.

Gofynnwch i chi'ch hun: Ydw i'n deall pa systemau rwy'n ymddiried ynddynt?

E Gwerthuso gweithredoedd

Beth allai ddigwydd oherwydd allbwn neu weithred yr AI?

- Cymerwch ofal ychwanegol lle gallai AI ddylanwadu ar adborth, asesu neu benderfyniad.
- Gwiriwch cyn i AI gyfathrebu, newid cofnodion neu weithredu ar ran rhywun.
- Cadwch oruchwyliaeth ddynol ystyrlon lle mae'r canlyniadau'n bwysig.
- Byddwch yn glir pwy sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y penderfyniad neu'r weithred derfynol.

Gofynnwch i chi'ch hun: Beth yw'r canlyniad os yw'r AI yn anghywir, wedi'i drin neu wedi'i gamddeall?

Nid yw AI SAFE yn golygu osgoi AI.

Mae'n golygu defnyddio AI gyda barn. Y nod yw gwneud defnydd AI yn weladwy, yn ystyriol ac yn ddiogel, gan gadw cyfrifoldeb dynol lle mae'n bwysig.

OS YDYCH YN ANSICR

Gwiriwch bolisi eich lleoliad neu siaradwch â'r cydweithiwr priodol cyn rhannu gwybodaeth sensitif neu ddefnyddio AI ar gyfer rhywbeth a allai effeithio ar ddysgwr.

Fframwaith ymddygiadol ymarferol yw AI SAFE. Mae'n cefnogi barn dda, ond nid yw'n cymryd lle trefniadau diogelu, diogelu data, rheolaethau seiberddiogelwch, gwiriadau caffael na chyfrifoldeb proffesiynol.